# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Lun, Mawrth 6ed 2023 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Bro Derfel.

Presennol: Eifion Davies (is-gadeirydd), Rita Jones, Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Dewi Pritchard, Gary Thomas, Gwynedd Jones, Meilir Jones, Gwenda Morris a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Eilir Rowlands, Gwenda Evans, Bethan Thomas a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Chwefror 7fed 2023) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **nodwyd y buddiant ger y ceisiadau ariannol perthnasol.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf – **Nodwyd. Cytunwyd i brynnu'r arwyddion ar gyfer toiledau cyhoeddus Llandderfel. Cymeradwywyd. y clerc i'w archebu a thalu amdanynt gydag arwydd y fynwent pan dderbynni'r yr anfoneb.**
b) Gwelliannau i'r mynwentydd – **yn dilyn ymweliad y cynghorwyr a'r mynwentydd roedd y clerc wedi paratoi rhestr o'r gwelliannau posib. Eglurodd y clerc ei bod wedi mynychu diwrnod agored Cronfa Melinau Gwynt Clocaenog a chafwyd cyngor ar sut i wneud cais. Roedd ansicrwydd pryd fydd y gronfa yn ail agor ond cytunwyd i symud ymlaen i gael amcan brisiau ar gyfer y gwaith.**

v) Gohebiaeth
a) Plaid Cymru.
i) Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru.

b) Heddlu Gogledd Cymru.
i) Gwahoddiad i gyfarfod yn Orsaf Y Bala – **cytunodd Alwyn Jones fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.**

c) Llywodraeth Cymru.
i) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

v) Ceisiadau Cynllunio
Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau.

vii) Materion Ariannol
a) The Pension Regulator – ailgofrestru. **Cytunwyd.**

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau) – **Cymeradwywyd.**

c) Taliadau - **Cyflog a chostau'r Clerc (Ionawr i Fawrth), CTHEM (TWE),Un Llais Cymru (Tal Aelodaeth), Neuadd Bro Derfel (Llogi), Neuadd Sarnau (Llogi), Neuadd Mynach (Llogi), Deiniol Davies (Gwaith ym Mynwent Frongoch a Llandderfel) a Chwmni Ciltalgarth (Torri glaswellt y mynwentydd). Cymeradwywyd. Cymeradwyd y clerc i'w archebu a thalu amdan arwyddion y toiledau a'r fynwent pan dderbynni'r yr anfoneb.**

d) Ceisiadau ariannol – **cytunwyd i gyfrannau:-**
**1) Neuadd Mynach - £450)**
**2) Neuadd Sarnau - £450 (Eifion Davies yn datgan buddiant)**
**3) Neuadd Llandderfel - £450**
**4) Ysgol Bro Tryweryn - £250**
**5) Ysgol Ffridd Y Llyn - £250**
**6) Ysgol Godre'r Berwyn - £100.00**
**7) Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel - £100**
**8) Cylch Meithrin Garn Bach Frongoch - £100**
**9) Hosbis Tŷ Gobaith - £100**

**10) Hosbis Tŷ'r Eos - £100**
**11) CFFI Meirionnydd - £200**
**12) Cantref - £100**
**13) Sioe CFFI Cwmtirmynach - £100**
**14) Ambiwlans Awyr Cymru -£100**
**15) Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel - £100**
**16) Marie Curie Gwynedd - £100**
**17) Urdd Cylch Meirionnydd - £100**
**18) Eisteddfod Talaith Powys - £75.**
**19) Neuadd Bro Derfel - derbyniwyd llythyr gan y pwyllgor yn egluro eu bod wedi codi arian er mwyn prynu cabinet** diffibriliwr **newydd i'r pentref ac os byddai'r Cyngor Cymuned yn gallu eu cynorthwyo i'w brynu ac adhawlio'r** TAW. **Cytunwyd yn unfrydol i'w cynorthwyo gyda'r pryniant. Cymeradwyd i'r clerc dalu am y cabinet pan dderbyni'r yr anfoneb.**

viii) Materion lleol.

a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MAI 2IL YN NEUADD SARNAU.**